
Offer cymharu digidol ar gyfer ffôn, band eang a theledu drwy dalu

Newidiadau i gynllun achredu gwirfoddol Ofcom

DATGANIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 27 Hydref 2020

1. Trosolwg

Mae Ofcom yn credu y dylai pob cwsmer ffôn, band eang a theledu drwy dalu gael bargaen deg. Rydyn ni eisiau i gwsmeriaid siopa gyda hyder, gwneud dewisiadau doeth a chael y fargen iawn ar gyfer eu hanghenion. Mae offer cymharu, fel gwefannau cymharu prisiau, yn darparu gwasanaeth gwerthfawr i bobl sy'n defnyddio'r ystod eang o gynnyrch ffôn, band eang a theledu drwy dalu sydd ar gael heddiw.

Mae gennym gynllun achredu gwirfoddol y gall offer cymharu ymuno ag ef, ar yr amod eu bod yn cyrraedd safonau penodol. Rydyn ni'n gwneud hyn i helpu i feithrin ymddiriedaeth yn y gwasanaeth maen nhw'n ei gynnig i gwsmeriaid. Mae'r ddogfen hon yn nodi ein penderfyniad terfynol ar sut y byddwn yn diwygio'r cynllun, fel ei fod yn parhau i fod o fudd i gwsmeriaid ac i sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth Ewropeaidd newydd.

Yr hyn rydyn ni wedi'i benderfynu

Rydym yn gwneud newidiadau i'n cynllun achredu i sicrhau bod offer cymharu yn parhau i weithio i gwsmeriaid gwasanaethau cyfathrebu. Bydd ein newidiadau'n rhoi mwy o hyblygrwydd er mwyn i adnoddau cymharu achrededig arloesi, gan gynnal safonau uchel y cynllun ar yr un pryd. Bydd y newidiadau hyn hefyd yn sicrhau bod y cynllun yn parhau i fod o fudd i gwsmeriaid wrth i farchnadoedd ddatblygu.

Bydd y cynllun yn cyd-fynd â gofynion deddfwriaeth Ewropeaidd newydd. Mae'r Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd (EECC) yn mynnu ein bod yn gwneud yn siŵr bod y wybodaeth a ddarperir gan adnoddau cymharu achrededig yn ddibynadwy, yn ddiuedd ac yn dryloyw. Er mwyn bodloni'r gofynion hyn, rydym wedi diwygio'r meini prawf rydym yn eu defnyddio i bennu aelodaeth.

Er mwyn bod yn gymwys i fod yn aelod o'r cynllun, rhaid i adnoddau cymharu wneud y canlynol:

- rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr am ansawdd y gwasanaethau y maent yn eu cymharu;
- egluro pwy sy'n berchen arnynt a bod yn annibynnol ar y darparwyr y mae eu gwasanaethau'n cael eu cymharu, er mwyn sicrhau canlyniadau chwilio diduedd;
- nodi meini prawf clir a gwrthrychol y seilir cymariaethau arnynt;
- darparu gwasanaethau i safon uchel a chydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol;
- darparu gwybodaeth sy'n gywir, yn hygyrch ac yn gyfredol, a chyflwyno'r wybodaeth honno mewn iaith glir a diffwdan;
- dangos cynigion sy'n cwmpasu cyfran sylweddol o'r farchnad a bod yn agored i unrhyw ddarparwr sy'n dymuno sicrhau bod eu cynnyrch ar gael i'w gymharu; a
- bod â gweithdrefnau effeithiol ar waith i ddelio â chwynion defnyddwyr a chaniatáu i ddefnyddwyr roi gwybod am wybodaeth anghywir.

Bydd ein newidiadau'n symleiddio'r broses achredu bresennol drwy ddileu rhai o'r gofynion mwy rhagnodol. Bydd y dull hwn yn helpu i sicrhau bod y cynllun mewn gwell sefyllfa i addasu i amgylchedd digidol sy'n newid a galluogi offer achrededig i arloesi, er enghraifft drwy ganiatáu ffyrdd newydd o gyflwyno canlyniadau chwilio i ddefnyddwyr. Bydd meini prawf newydd y cynllun yn dod i rym o 30 Ebrill 2021 ymlaen.

Gall offer cymharu helpu cwsmeriaid i lywio drwy'r marchnadoedd cyfathrebiadau a chael borgen sy'n diwallu eu hanghenion

- 1.1 Mae offer cymharu, fel gwefannau cymharu prisiau (PCWs), yn helpu cwsmeriaid i gymharu gwahanol gynnyrch yn gyflym ac yn hawdd, ac maent yn ffordd bwysig i gwsmeriaid lywio drwy farchnadoedd cyfathrebu ac o bosibl arbed arian ar fargen newydd. Rydym am i gwsmeriaid fod yn hyderus bod yr adnoddau cymharu maent yn eu defnyddio yn darparu gwybodaeth dryloyw, ddiuedd a chywir. Mae hyn yn bwysig o ran meithrin ymddiriedaeth cwsmeriaid yn yr adnoddau hyn.
- 1.2 Mae gennym gynllun achredu cymharu prisiau gwirfoddol sydd ar hyn o bryd yn achredu chwe offeryn cymharu. Rhaid i aelodau achrededig gyflawni archwiliadau rheolaidd sy'n cynnwys asesiadau o'u tryloywder, eu cywirdeb a'u hygyrchedd, i sicrhau eu bod yn cadw

at safon uchel o ymddygiad ac yn cyflwyno cymariaethau dibynadwy y gellir ymddiried ynddynt.

Rydym wedi adolygu'r cynllun achredu i sicrhau ei fod yn parhau i fod o fudd i gwsmeriaid wrth i farchnadoedd ddatblygu

- 1.3 Adolygwyd ein cynllun achredu ddiwethaf yn 2013. Ers hynny, mae'r defnydd o offer cymharu digidol a'r amrywiaeth o wasanaethau cyfathrebu a gynigir i gwsmeriaid wedi esblygu. Bydd y newidiadau rydym yn eu gwneud i ddiweddarau'r cynllun yn helpu i sicrhau ei fod yn dal yn berthnasol ac yn parhau i fod o fudd i gwsmeriaid.
- 1.4 Yn 2018, cyflwynodd deddfwriaeth Ewropeaidd newydd, y Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd (EECC)¹, ofynion ar Ofcom ynghylch sut mae'r cynllun yn gweithredu. Mae'r EECC yn adlewyrchu egwyddor graidd ein cynllun achredu presennol – meithrin ymddiriedaeth cwsmeriaid drwy sicrhau bod offer cymharu yn cyflwyno gwybodaeth annibynnol a dibynadwy.
- 1.5 Mae'r EECC yn mynnu bod o leiaf un offeryn cymharu annibynnol ar gael i gwsmeriaid sy'n bodloni safonau ansawdd a gweithredu penodol ym mhob un o aelod wladwriaethau'r UE. Mae'r EECC yn rhagweld y gall yr holl offer cymharu sy'n bodloni'r safonau hyn yn y DU, yn ôl eu disgrisiwn, wneud cais am gael eu hardystio gan Ofcom. Nod ein hadolygiad yw gwneud yn siŵr bod ein cynllun yn bodloni gofynion EECC.
- 1.6 Er i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd ar 31 Ionawr 2020, o dan delerau'r Cytundeb Ymadael, mae'n ddyletswydd ar y DU o hyd i weithredu Cyfarwyddebau'r UE mewn cyfraith ddomestig tan ar ôl dyddiad cau'r EECC, sef 21 Rhagfyr 2020. Yn ogystal, yn ei ddatganiad diweddar ar EECC, roedd y Llywodraeth yn glir y dylai Ofcom fwrw ymlaen i weithredu'r darpariaethau hawliau defnyddwyr terfynol yn llawn, fel y bwriadwyd.²

Bydd ein newidiadau i'r cynllun yn cynnal y safonau presennol ac yn rhoi mwy o hyblygrwydd i adnoddau cymharu achrededig arloesi

- 1.7 Bydd ein newidiadau'n symleiddio'r cynllun ac yn mabwysiadu dull gweithredu mwy seiliedig ar egwyddorion ar gyfer y safonau a bennir drwy ein meini prawf achredu. Mae hyn yn cynnwys cael gwared â rhai o elfennau mwy rhagnodol y cynllun â rhoi rheolau lefel uwch yn eu lle. Bydd angen i ymgeiswyr ac aelodau'r cynllun gyflwyno hunanasesiad yn dangos sut y maent yn bodloni meini prawf y cynllun er mwyn cael eu hachredu neu er mwyn parhau i fod yn achrededig.
- 1.8 Ar ôl ystyried adborth gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad, byddwn yn parhau i ddefnyddio gwasanaethau archwilydd allanol i archwilio'r holl aelodau sy'n ceisio achrediad neu ailachrediad. Fodd bynnag, o'i gymharu â'r broses flaenorol, rydym yn disgwyl i

¹ [Cyfarwyddeb \(UE\) 2018/1972 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 11 Rhagfyr 2018 yn sefydlu'r Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd](#)

² Gweler: Ofcom, Hydref 2020, *Triniaeth deg a'i gwneud hi'n haws i gwsmeriaid band eang a symudol newid darparwr Rhoi'r Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd newydd ar waith*, sydd ar gael yn: https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0018/205317/eccc-statement-welsh-overview.pdf

archwiliadau o dan ein cynllun newydd fod yn symlach. Yn gyffredinol, bydd ein newidiadau i'r cynllun yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r dulliau cymharu ac fe'u lluniwyd i hybu arloesedd, gan sicrhau cywirdeb a thryloywder priodol ar yr un pryd.

- 1.9 Wrth ddiwygio'r cynllun, rydym hefyd wedi ystyried yr argymhellion a wnaed gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) yn ei Astudiaeth o'r Farchnad ar Offer Cymharu Digidol³ 2017, yn ogystal ag ymchwil defnyddwyr a gomisiynwyd gan Ofcom i ddeall yn well sut mae defnyddwyr yn defnyddio gwasanaethau trydydd parti.⁴

Beth sy'n digwydd nesaf

- 1.10 Byddwn yn caniatáu cyfnod gweithredu o tua chwe mis i aelodau presennol y cynllun wneud unrhyw newidiadau i'w gweithdrefnau gweithredu cyn asesu a ydynt yn cydymffurfio â meini prawf newydd y cynllun. Mae hyn yn golygu y dylai aelodau presennol y cynllun sicrhau eu bod yn cydymffurfio â meini prawf newydd y cynllun erbyn 30 Ebrill 2021] fan hwyraf. Bydd archwiliad yn cael ei drefnu i asesu cydymffurfiad yn fuan ar ôl y dyddiad hwn.
- 1.11 Os bydd aelodau presennol i fod i gael eu hasesu ar gyfer ailachrediad yn ystod y cyfnod gweithredu, byddwn yn gohirio'r archwiliad tan fis Mai 2021, ac ar yr adeg honno bydd yr asesiad yn cael ei gynnal yn erbyn meini prawf newydd y cynllun.
- 1.12 Dylai offer cymharu nad ydynt yn aelodau o'r cynllun ar hyn o bryd ond sy'n dymuno gwneud cais am achrediad hefyd wneud cais o fis Mai 2021 ymlaen. Dylai hyn roi amser i ymgeiswyr newydd ystyried meini prawf newydd y cynllun a gwneud unrhyw newidiadau i'w gweithdrefnau gweithredu cyn cyflwyno cais.

³ CMA, Medi 2017, *Offer cymharu digidol, astudiaeth o'r farchnad: Adroddiad terfynol*. Ar gael yn: <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/59c93546e5274a77468120d6/digital-comparison-tools-market-study-final-report.pdf>

⁴ Ofcom, Awst 2020, *Ymchwil defnyddwyr Cyfathrebiadau Rhyngwryd*. Ar gael yn: https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0025/199150/open-communications-2020-survey.pdf